**Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 3ydd Mehefin 2025 yng Nghaffi Beca am 7.30pm**

**Yn bresennol:** Russell Davies (Cadeirydd), Rebecca Jaimangal-Jones (Is-gadeirydd), Anthony Eynon, Anthony Jenner, Ffion John, Julian Williams, Tudur Lewis, Dennis Jones, Michael Fussell, Cyng Dorian Phillips, Janice Morgan (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** -

Croesawodd RD bawb i'r cyfarfod.

2. **Datganiadau o ddiddordeb:** Dim

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf 25/3/2025:**

- Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 25/3/25 yn gywir gan FfJ ac eiliwyd gan AE.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

- **Cam gweithredu: JM i roi diweddariad am ei sgwrs gyda chlerc Llanismel ynglyn â chymryd drosodd mynwent yn y cyfarfod nesa.**
  – Adroddodd JM ei bod wedi cael sgwrs fuddiol iawn gyda Chlerc Llanismel, a roddodd wybodaeth werthfawr ynglŷn â'r broses o gyngor cymuned yn cymryd drosodd reolaeth mynwentydd. Gwnaeth JM nodiadau manwl o'r drafodaeth ac mae wedi'u rhannu gydag aelodau'r Cyngor, yn ogystal ag ymddiriedolwyr Hebron. Mae'r mater yn nwylo'r ymddiriedolwyr, ac mae'r Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ganddyn nhw maes o law.

4. **Gohebiaeth**

- Derbyniwyd cais am gymorth ariannol gan Marie Curie, i'w ystyried yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Tachwedd.
- Derbyniwyd llythyr gan Eisteddfod Ryngwladol Llangollen 2025 yn gofyn am gyfraniad ariannol. Bydd JM yn anfon y ffurflen gais am gymorth ariannol.
- Mae manylion am wahanol gyfleoedd hyfforddi sydd ar ddigwydd wedi'u dosbarthu i bawb. Dylai aelodau hysbysu JM os ydynt am fynychu unrhyw sesiynau.
- Cynhelir hyfforddiant Cod Ymddygiad i gynghorwyr drwy Zoom ar 10/07/25 am 2pm. Gofynnir i aelodau gadarnhau cyn gynted â phosibl os ydynt am fynychu.
- Derbyniwyd cais am ddata yn ymwneud â chydymffurfiaeth â'r Cod Ymddygiad. Disgwylir i gynghorau gymryd rhan mewn hyfforddiant o bryd i'w gilydd. Bydd JM yn cwblhau'r holiadur erbyn 01/07/2025.

5. **Diweddariad cyllid ac arwyddo sieciau**

- Cadarnhaodd JM fod y flwyddyn ariannol newydd 2025/26 wedi dechrau gyda balans o £2,571.38.
- Mae 3 thaliad wedi'u gwneud hyd yma:
  – Un Llais Cymru – aelodaeth 2025/26: £149.00
  – Jamie King – cynllun rheoli gwefan (Ebrill–Gorffennaf): £150.00
  – Goleuadau cyhoeddus a chyfleustodau – taliadau trydan ar gyfer y cyfnod 01/04/2024 i 31/03/2025: £1,526.51
  – Cyfanswm y gwariant hyd yma: £1,825.51

- Y praesept ar gyfer 2025/26 yw £13,000, gyda'r rhandaliad cyntaf o £4,333.34 wedi'i dderbyn ar 30/4/25.
- Ar 20/5/25, balans y cyfrif cyfredol yw £5,124.21.
- Nid oes gan y cyngor cymuned gyfrif cynilo mwyach.

Sieciau Arwyddo

- Cymeradwywyd y taliadau canlynol i'w llofnodi:
  - Jamie King – 2 anfoneb ar gyfer: cynnal gwefan a pharth, gan gynnwys tystysgrif SSL ar gyfer 2025/26: £110.00 a rheoli gwefan (Gorffennaf–Hydref), 2 awr y mis: £150.00
  - Archwilio Cymru – ffioedd archwilio ar gyfer 2023/24: £200.00
  - Archwilydd Mewnol – anfoneb ar gyfer Archwiliad Mewnol 2023/24: £67.50
  - Caffi Beca – Llogi ystafell ar gyfer cyfarfod 03/06/2025: £25.00
  - Cyfanswm y taliadau a gymeradwywyd: £552.50
- Balans sy'n weddill yn dilyn y taliadau hyn: £4,571.71

- Cyflog y Clerc: Gofynnwyd i JM adael y cyfarfod dros dro. Ar ôl i JM ddychwelyd, cadarnhaodd y Cadeirydd benderfyniad y Cyngor i godi cyflog blynyddol y Clerc o £1398.80 i £2000, yn weithredol ar unwaith. Cytunwyd ar y cynnydd hwn o ychydig dros £600 i gydnabod y gwaith sylweddol sy'n gysylltiedig â rôl y Clerc. Diolchodd JM yn fawr i'r Cyngor am y gydnabyddiaeth hon.

**6. Cynllunio**

- Cyflwynwyd 4 cais cynllunio ers y cyfarfod diwethaf:
  - PL/08951 – estyniad ôl-weithredol i'r trac mynediad amaethyddol presennol – tir ger Llys Helyg, Glandy Cross, Clunderwen, SA66 7XA
  - PL/09249 – newidiadau arfaethedig ac estyniad unllawr yn Arwel, Hebron, Hendy-gwyn, SA34 0YP
  - PL/07979 – 2 estyniad unllawr, estyniad garej, ac ystafell ardd a storfa newydd yn Llwynceirios, Hebron, Hendy-gwyn, SA34 0YR
  - PL/09330 – newid garej yn gampfa gartref yn Highcroft, Efailwen, Clunderwen, SA66 7UX
- Ni wnaed unrhyw wrthwynebiadau i'r ceisiadau uchod.

**7. Diweddariad y Cynghorydd Sir**

- Riportiodd preswylydd am broblem annibendod a charthffosiaeth ym Maeshyfryd, Glandy Cross. Archwiliwyd y safle ac ni chanfuwyd unrhyw broblem carthffosiaeth.
- Mae tyllau ar y ffyrdd wedi gwella, ond mae'r ffyrdd o Ffynnonwen i Login ac o Lysnewydd i Nebo yn parhau i fod mewn cyflwr gwael.
- Gwnaed cais i ddargyfeirio llwybr troed cyhoeddus yn Lletty; mae'r Cynghorydd DP wedi cefnogi'r cais hwn.
- Swydd wag i lywodraethwr ar Fwrdd Llywodraethwyr Ysgol Bro Brynach ac Ysgol Beca.
- Dim diweddariad ar hyn o bryd ar gynnydd band eang. Mae cynllun grant Mynediad Band Eang Cymru bellach ar agor.
- Mae cynghorwyr yn cyfarfod â Heddlu Dyfed-Powys bob 6 wythnos. Dylid trosglwyddo unrhyw bryderon i'r Cynghorydd DP.
  **Cam gweithredu: JM i gynhyrchu poster gyda logo Heddlu Dyfed-Powys ar gyfer yr hysbysfwrdd cymunedol.**
- Mae sbwriel yn parhau i ymddangos ar safle Ynys Fach ac ar dir comin ger y gyffordd tuag at Bont Hywel. Bydd y Cyngh DP yn dilyn i fyny ar y mater.
- Riportiwyd goryrru yng Nglandy Cross ac Efailwen. Bydd y Cyngh DP yn riportio hyn.

- Gwelwyd llygod mawr ar eiddo Brynhaul, sydd hefyd mewn cyflwr peryglus. Bydd y Cyngh DP yn riportio hyn ac yn gofyn am fesurau diogelwch.
- Mae tymor torri cloddiau yn dechrau ar 01/06/2025. Bydd y Cyngh DP yn sicrhau bod y clawdd ar bwys JW yn cael ei dorri.

**8. Iechyd, Diogelwch a Lles**

- Trafodwyd cynnal archwiliadau iechyd a diogelwch ar y llwybrau troed sydd wedi'u hadfer er mwyn nodi peryglon posibl e.e. coed wedi cwympo.
- Adroddodd RJJ ei bod hi'n cerdded y llwybrau troed yn rheolaidd ac yn hapus i adrodd yn ôl ar unrhyw broblemau.
- Cwympodd sawl coeden yn ystod Storm Darragh. Er bod llawer eisoes wedi'u clirio gan wirfoddolwyr, mae coed mawr yn parhau i rwystro llwybr troed Pantyrodyn ac mae angen eu symud.
- Dywedodd RD fod CHartt wedi cael gwybod mai cyfrifoldeb y perchennog tir yw clirio unrhyw goed sydd wedi cwympo ar eu tir.
- Mae aelodau'r is-grŵp llwybrau troed hefyd yn cerdded y llwybrau'n rheolaidd ac yn ymgymryd â gwaith clirio lle mae angen.
- Diolchwyd i AJ am ddarparu bwrdd picnic ar bwys y bont ar hyd y llwybr troed.
- Nodwyd bod rhai wedi mynegi diddordeb mewn helpu i glirio'r llwybr troed yn Efailwen.

  **Cam gweithredu: DJ i ofyn ymhellach i'r rhai sydd â diddordeb mewn clirio'r llwybr troed yn Efailwen.**

**9. Bioamrywiaeth**

- Mynychodd JM hyfforddiant bioamrywiaeth ar 14/4/25, oedd yn canolbwyntio ar ofynion statudol Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Pwysleisiwyd bod gan gynghorau cymuned ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Dyma rai ffeithiau allweddol: gostyngiad o 50% yn nifer y cacwn; colli 97% o berci blodau gwyllt; gostyngiad o 71% ym mhoblogaeth sgrech y coed cyffredin; mae 1 o bob 6 rhywogaeth bywyd gwyllt mewn perygl o ganlyniad i darfu ar gynefinoedd.
- O ran cydymffurfio, rhaid i gynghorau integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau; cynnal cynllun gweithredu; cyhoeddi adroddiad bioamrywiaeth bob 3 blynedd – mae'r adroddiad nesaf i fod erbyn diwedd 2025.
- Mae gan y Cyngor bolisi a chynllun gweithredu Bioamrywiaeth ar waith eisoes, fodd bynnag, dywedodd JM y gellid gwneud mwy i hyrwyddo bioamrywiaeth e.e. hyrwyddo ymgyrchoedd bioamrywiaeth (e.e. *No Mow May*, *Let it Bloom June*, *Big Garden Birdwatch*); creu "Cornel Bioamrywiaeth" ar yr hysbysfwrdd, y wefan, a'r cyfryngau cymdeithasol; annog cofnodi bioamrywiaeth leol; hyfforddiant pellach i gynghorwyr

  **Cam Gweithredu: Cynllun Gweithredu a Pholisi Bioamrywiaeth y Cyngor i'w hadolygu yn y cyfarfod nesaf.**
- Mae RJJ wedi cysylltu â sefydliad ynghylch menter cadwraeth llygod daear.
- Mae AJ, fel un sy'n cadw gwenyn, yn gwneud cyflwyniadau i grwpiau lleol ar gadw gwenyn.
- Mae blychau ystlumod wedi'u gosod yn Nyffryn Y Wenallt. Mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent yn cynnal arolwg ystlumod; yn aros am ganlyniadau.

**10. Unrhyw Fater Arall**

- Mae Pwyllgor Apêl Eisteddfod y Garreg Las 2026 - Efailwen, Llanglydwen, Login, Cwmeils, a Hebron, wedi cael dechreuad da. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ddiwedd mis Mawrth, ac mae sawl digwyddiad codi arian wedi'u trefnu. Bu'r digwyddiad cyntaf sef noson Bingo yng Nghaffi Beca ar 23/5/25 yn llwyddiannus iawn. Codwyd £750, gyda diolch i aelodau'r gymuned a roddodd wobrau hael. Hyd yn hyn, mae'r pwyllgor

wedi codi dros £3,000. Y digwyddiad nesaf yw Helfa Drysor Ceir ar 15/7/25, gyda chyfarfod nesaf y pwyllgor ar 8/7/25.

- Trafododd y Cyngor noddi cystadleuaeth yn yr Eisteddfod a chytunwyd cyfrannu £200 tuag at hyn.
  **Cam Gweithredu: JM i drefnu noddi cystadleuaeth gwerth £200 ar gyfer yr Eisteddfod.**
- Derbyniwyd llythyr ar 23/5/25 gan Gydlynydd Grantiau Cymunedol Sir Gaerfyrddin yn hysbysu nad oedd ein hail gais am grant Cymunedau Cynaliadwy wedi bod yn llwyddiannus y tro hwn.
- Lwfans Cydnabyddiaeth Ariannol i Gynghorwyr - dywedodd JM fod angen talu'r lwfans cydnabyddiaeth ariannol o £156 ar gyfer 2024/25. Mae'n ofynnol i Gynghorwyr nad ydyn nhw am dderbyn y lwfans gadarnhau hyn yn ysgrifenedig, gan fod angen cadarnhad ysgrifenedig at ddibenion archwilio. Dywedodd FfJ na fyddai'n derbyn y lwfans a bydd yn darparu cadarnhad ysgrifenedig. Cytunwyd y byddai'r £156 hwn heb ei hawlio yn cael ei ychwanegu at y £200 a gytunwyd yn flaenorol, gan wneud cyfraniad o £356 i noddi cystadleuaeth Eisteddfod y Garreg Las.
  **Cam Gweithredu: Cynghorwyr nad ydyn nhw am dderbyn y lwfans cydnabyddiaeth blynyddol i hysbysu JM drwy e-bost cyn gynted.**

11. **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** Nos Fawrth 29ain Gorffennaf 2025 am 7.30yh

*Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan y Cadeirydd am 9.15pm*

Arwyddwyd

Cadeirydd: T R Davies ........................ Dyddiad: 29/7/2025